

MOLD TOWN COUNCIL CYNGOR TREF YR WYDDGRUG

Unit 10
Daniel Owen Precinct
Mold
Flintshire
CH7 1AP

Telephone: 01352 758532
Fax: 01352 755804



www.moldtowncouncil.org.uk

Uned 10
Canolfan Daniel Owen
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1AP

Ffôn: 01352 758532
Ffacs: 01352 755804

Aelodau Cyngor Tref yr Wyddgrug

22^{ain} Ionawr 2026

Aelodau'r Cyngor

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gelwir trwy hwn i gyfarfod Cyngor Tref yr Wyddgrug a gynhelir am **6.00pm** **Ddydd Mercher 28^{ain} Ionawr, 2026** yn Swyddfeydd Cyngor Tref yr Wyddgrug, Uned 10, Canolfan Daniel Owen, Yr Wyddgrug CH7 1AP. Bydd y cyfarfod ar gael hefyd drwy Gynhadledd Fideo fel cyfarfod hybrid, gwelwch y ddolen isod.

Yn gywir iawn,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Jane Jones'.

Clerc y Dref a Swyddog Cyllid

AGENDA

CYFRANOGAETH Y CYHOEDD

Mae ymrwymiad gan Gyngor Tref yr Wyddgrug i ymgysylltu â'r gymuned ac felly mae'n estyn croeso cynnes i aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod hwn. Mae Rheolau Sefydlog Cyngor Tref yr Wyddgrug yn caniatáu clustnodi 15 munud o dan yr eitem 'Cyfranogaeth y Cyhoedd' ar yr agenda gan glustnodi hyd at 5 munud fesul pwnc.

Mae'n rhaid i'r rhai sydd eisiau cyfarch y cyfarfod o dan Gyfranogaeth y Cyhoedd:

- Roi gwybod i Glerc y Dref eu bod eisiau siarad, a hynny erbyn 4.30pm ar y diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor Tref.
- Gyfeirio pob sylw/cwestiwn at gadeirydd y cyfarfod.

Dylai aelodau'r cyhoedd nodi y bydd y cyngor ond yn trafod pynciau sydd wedi eu cyhoeddi ar yr agenda, a dim ond am y rhain y gall wneud penderfyniadau. Os na fydd unrhyw faterion yn cael eu codi, bydd cyfarfod y Cyngor Tref yn cychwyn am 6pm.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb sy'n hysbys am eitemau ar yr agenda.

3. CYHOEDDIADAU'R MAER

Derbyn Cyhoeddiadau'r Maer

4. COFNODION

4.1 **Derbyn** Cofnodion Cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd ar 26^{ain} Tachwedd 2025 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.2 **Derbyn** Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor y Cyngor Ieuenctid a Phlant a gynhaliwyd ar 2^{il} Rhagfyr 2025 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.3 **Derbyn** Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Mynwentydd a gynhaliwyd ar 3^{ydd} Rhagfyr 2025 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.4 **Derbyn** Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 9^{fed} Rhagfyr 2025 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.5 **Derbyn** Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 15^{fed} Rhagfyr 2025 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.6 **Derbyn** Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 12^{fed} Ionawr 2026 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.7 **Derbyn** Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor y Cyngor Ieuenctid a Phlant a gynhaliwyd ar 14^{eg} Ionawr 2026 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.8 **Derbyn** Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Personél a gynhaliwyd ar 19^{eg} Ionawr 2026 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.9 **Derbyn** Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Polisi ac Archwilio a gynhaliwyd ar 20^{fed} Ionawr 2026 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

5. RHESTR WEITHREDU

Nodi'r Rhestr Weithredu sydd ynghlwm.

6. ADRODDIAD SWYDDOGION

(i) **Derbyn** adroddiad gan y Swyddog Digwyddiadau ac Ymgysylltu Cymunedol (ynghlwm).

(ii) **Derbyn** adroddiad gan Glerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (ynghlwm).

7. CALENDR DIGWYDDIADAU DRAFFT AR GYFER 2026

Ystyried y calendr digwyddiadau drafft sydd ynghlwm ar gyfer 2026 mewn perthynas â digwyddiadau Cyngor Tref yr Wyddgrug.

8. GOSOD PRAESEPT/CYLLIDEB 2026/27

Ystyried y gyllideb ddrafft a argymhellwyd gan y Pwyllgor Cyllid (ynghlwm).

Cytuno ar y praesept ar gyfer 2026-2027 (ynghlwm).

9. CRONFEYDD WRTH GEFN WEDI EU CLUSTNODI

Ystyried yr argymhelliad gan y Pwyllgor Cyllid ynghylch newidiadau i'r Cronfeydd Wrth Gefn sydd wedi eu Clustnodi (ynghlwm).

10. DYFODOL ARWERTHIANT CIST CAR LOVE LANE

Ystyried y llythyr sydd ynghlwm gan Gyngor Sir y Fflint.

11. CYSTADLEUAETH TREF DIWYLLIANT Y DU

Ystyried yr adroddiad sydd ynghlwm am Gystadleuaeth Tref Diwylliant y DU.

12. CRONFA BENSIWN CLWYD – CYNGOR TREF YR WYDDGRUG

Ystyried yr adroddiadau sydd ynghlwm a'r ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad gyda'r ymateb a argymhellir.

13. ARGYMHELLIAD GAN Y PWYLLGOR PERSONÉL

Ystyried yr adroddiad sydd ynghlwm o gynyddrannau tâl blyneddol i staff yn unol â strwythur talu'r Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) a chontractau cyflogaeth gweithwyr cyflogedig.

14. ARGYMHELLIAD GAN Y PWYLLGOR POLISI AC ARCHWILIO

Nodi bod polisïau/dogfennau Cyngor Tref yr Wyddgrug wedi eu hadolygu yn rhan o weithdrefnau adolygu polisi'r Cyngor ac nad oes angen unrhyw newidiadau ar hyn o bryd:

- (a) Rheolaeth Ariannol Mewnol
- (b) Asesiad Risg Ariannol 2026
- (c) Archebion Sefydlog

Ystyried yr argymhelliad gan y Pwyllgor Polisi ac Archwilio i fabwysiadu'r polisïau newydd a ganlyn:

- (d) Polisi Cyfathrebu

- (e) Polisi Urddas yn y Gwaith
- (f) Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- (g) Polisi Recriwtio, Dethol a Chadw
- (h) Polisi Rheoli Straen
- (i) Cofrestr Asesu Rheoli Straen

15. CYNLLUN CREU LLEOEDD YR WYDDGRUG

Ystyried y ddogfen sydd ynghlwm a darparu adborth os yw'n ofynnol.

16. ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ALLANOL 2024/25

Ystyried adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a barn yr archwiliad.

17. HYSBYSIAD AM BENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Nodi'r adroddiad sydd ynghlwm

18. CYFRIFON/TALIADAU

Cymeradwyo'r amserlenni sydd ynghlwm sy'n dangos y cyfrifon i gyd – Misoedd 8 a 9, gan nodi bod taliadau'n cael eu gwneud yn unol â phwerau'r cynghorau lleol.

NODWCH:

Mae caniatâd i aelodau'r wasg a'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod hwn (ond nid i siarad heblaw eu bod wedi trefnu hynny o flaen llaw gyda Chlerc y Dref a'r Swyddog Cyllid).

CYFARWYDDIADAU ZOOM

<https://us02web.zoom.us/j/89282178432?pwd=30a4yPzsufbbWdZq8oKW7hIPAgb5Ut.1>

ID y Cyfarfod: 892 8217 8432

Cyfrinair: 417632